

# Polisi **Ymgysylltiad ac Ymddygiad**

| Cymeradwywyd y Polisi gan | Dyddiad cymeradwyo | Perchennog y Polisi | Adolygu |
|---|---|---|---|
| CSDd JMT | 11/12/2024 | Addysg CSDd | Fel pob dogfen ar y rhyngrwyd, mae'r ddogfen hon yn destun adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. |

| Rhif y Fersiwn | Dyddiad cymeradwyo | Cymeradwywyd gan | Newid |
|---|---|---|---|
| F1.0 | 11/12/2024 | CSDd JMT | Adolygwyd y polisi yn unol â deddfwriaeth a chymeradwywyd Templed Addysg newydd ar gyfer ysgolion CSDd. |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Cynnwys

- Datganiad Polisi Ymgysylltiad ac Ymddygiad

Atodiadau


A. Ymgysylltiad ac Ymddygiad : Hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â staff
B. Ymgysylltiad ac Ymddygiad : Hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â Dysgwyr
C. Ymgysylltiad ac Ymddygiad : Hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â Rhieni a Gofalwyr
D. Rhestr o wobrau a chosbau.
E. Rhestr o bolisïau perthnasol
F. Rhestr o Brofiadau Niweidiol Plentyndod (ACEs)


DRAFT

# Ysgol Bro Dyfrdwy

# Polisi Ymgysylltiad ac Ymddygiad

**Yn Ysgol** Bro Dyfrdwy **ein nod yw sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn**

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes.
- Cyfranwyr blaengar, creadigol, sy'n barod i fod yn rhan lawn o fywyd a gwaith.
- Dinasyddion moesegol, cydwybodol sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.
- Unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus yn aelodau gwerthfawr i gymdeithas.

**Er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer ein dysgwyr mae'n hanfodol bod cydweithrediad a phartneriaethau cryf yn bodoli rhwng y disgybl, yr ysgol a'r cartref.**

Mae dysgwyr yn dysgu orau mewn awyrgylch â disgyblaeth a threfn lle y cânt eu hatgoffa'n aml o'r disgwyliadau. Mae ein rheolau yn glir ac yn gosod y safonau y dylai'r dysgwyr anelu tuag atynt, yn y dosbarth a thu allan i'r dosbarth. Mae disgyblaeth dda o bwysigrwydd i'r ysgol gyfan ac yn gyfrifoldeb i bob aelod o staff bob amser. Mae ymateb cyson a chadarn gan ein staff i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol, yn atgyfnerthu ein disgwyliadau gan y dysgwyr.

Mae problemau yn codi pryd bynnag y bo pobl yn rhyngweithio, yn enwedig pan fo pobl ifanc yn dysgu a phrofi ffiniau ymddygiad derbyniol ac a gytunwyd. Gellir barnu llwyddiant nid drwy absenoldeb problemau ond drwy'r modd yr ydym yn mynd i'r afael â nhw. Dylem geisio gwahaniaethu rhwng y broblem a'r unigolyn. Bydd pobl ifanc yn gwneud camgymeriadau a phan fyddant yn gwneud y rhain, mae angen ymateb, nid adwaith.

Mae ein disgwyliadau yn amlinellu'r ymddygiad, agwedd a threfn y dylai pob aelod o gymuned ein hysgol eu dilyn bob amser.

**Disgwyliadau'r Ysgol (Ychwanegwch ddisgwyliadau eich ysgol)**

- Parodrwydd – Dylai pawb gyrraedd yr ysgol gyda'r agwedd, offer ac ymddangosiad cywir sy'n eu paratoi ar gyfer llwyddiant.
- Parch - Mae ein hysgol yn gwerthfawrogi urddas pob aelod o'n cymuned. Dylai pawb ddangos parch tuag at eu hunain ac at holl aelodau cymuned yr ysgol.
- Cyfrifoldeb – Mae gan bawb gyfrifoldeb ar y cyd ac unigol i sicrhau bod ein hymddygiad yn hyrwyddo dysgu effeithiol a diogelwch cymuned yr ysgol. Mae angen i bawb dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain.

DRAFT

**Rheoli ymddygiad**

Yn Ysgol Bro Dyfrdwy rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod addysgu a dysgu effeithiol yn cael ei gyflawni ac mae ymddygiad da yn orfodol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Rydym yn ceisio creu awyrgylch dysgu cadarnhaol drwy:

- Hyrwyddo ymddygiad da a disgyblaeth
- Hyrwyddo hunan-barch, hunanddisgyblaeth, parch tuag at awdurdod.
- Hyrwyddo perthnasau cadarnhaol sy'n seiliedig ar barch y naill at y llall.
- Hyrwyddo cysondeb wrth ymateb i ymddygiad cadarnhaol a negyddol.

**Cydnabyddiaeth –** cyfle i wobrwyo Dysgwyr am eu cyflawniadau.

- **Lefel Dosbarth –** Mae'r athrawon yn meddu ar sgiliau i nodi cyfleoedd i ganmol Dysgwyr a chydnabod eu llwyddiannau.
- **Tystysgrifau**
- **Uwch Dîm Arweinyddiaeth –** Bydd dysgwyr yn mynd at y Pennaeth ac yn cael canmoliaeth a sticer y pennaeth I ddathlu eu llwyddiannau.
- Bydd cynnydd yn cael ei ddathlu mewn **Nosweithiau Dathlu Cyrhaeddiad.**

Fel mewn unrhyw ysgol, mae bron ein holl ddysgwyr yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda rhan fwyaf o'r amser. Maent yn awyddus i ddysgu a chyfrannu'n llawn at bob agwedd o fywyd yr ysgol. Er mwyn i ddysgwyr gyflawni ar y lefel uchaf o fewn eu gallu, mae agweddau da, cefnogaeth rhieni a sefydlu'r amodau cywir ar gyfer dysgu oll yn allweddol. Mae safonau ymddygiad derbyniol a pharch yn dibynnu ar enghraifft gennym i gyd: mae gennym oll gyfraniad cadarnhaol i'w wneud. Mae'n rhaid gweithio i gyflawni trefn, nid yw'n digwydd ar ddim. Mae pawb yma yn yr ysgol at ryw bwrpas a dylai bod pob person yn cael eu parchu a'u trin fel unigolyn. Mae perthnasau yn hanfodol – rhwng pawb ac ar bob lefel. Dylem oll wneud ymdrech i:-

- Gyfarch a chael ein cyfarch
- Siarad a gwrando
- Gwenu ac uniaethu
- Cyfathrebu
- Gwneud gwahaniaeth
- Dangos cydraddoldeb a thegwch.

DRAFT

# Atodiad A

## Ymgysylltiad ac Ymddygiad

## Hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â staff

- Parodrwydd – Dylai pawb gyrraedd yr ysgol gyda'r agwedd, offer ac ymddangosiad cywir sy'n eu paratoi ar gyfer llwyddiant.
- Parch - Mae ein hysgol yn gwerthfawrogi urddas pob aelod o'n cymuned. Dylai pawb ddangos parch tuag at eu hunain ac at holl aelodau cymuned yr ysgol.
- Cyfrifoldeb – Mae gan bawb gyfrifoldeb ar y cyd ac unigol i sicrhau bod ein hymddygiad yn hyrwyddo dysgu effeithiol a diogelwch cymuned yr ysgol. Mae angen i bawb dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain.

**Hawliau a Chyfrifoldebau:-**

Mae gan Ysgol Bro Dyfrdwy a'i staff yr hawl i:-

- Orfodi polisi ymddygiad yr ysgol gan gynnwys rheolau a mesurau disgyblu.
- Disgwyl i ddysgwyr a rhieni gydweithredu i gynnal hinsawdd dysgu trefnus.
- Disgwyl i ddysgwyr barchu hawliau Dysgwyr eraill ac oedolion.
- Peidio â derbyn ymddygiad camdriniol a threisgar.
- Ymgysylltu ag asiantaethau allanol fel y bo'n briodol.

**Disgwyliadau yn y Dosbarth.**

Mae angen i reolau'r dosbarth fod yn isel o ran nifer a dylid cyfeirio atynt yn rheolaidd gan yr athrawon dosbarth. Dylid holi'r dysgwyr ynglŷn â'r rheolau a gofyn iddynt gynnig rhesymau pam fod gennym reolau o'r fath. Bydd y rheolau yn parhau i fod yn effeithiol os yw'r holl athrawon yn eu defnyddio yn rheolaidd.

Mae'n allweddol ein bod yn rheoli ein disgwyliadau yn seiliedig ar allu a dealltwriaeth y disgybl.

Dylai'r holl staff ddilyn yr **un gweithdrefnau :**

- Dechrau a gorffen gwers ar amser bob tro.
- Cymryd cofrestr y dosbarth a nodi unrhyw ddisgyblion sy'n hwyr.
- Creu cynllun eistedd a chadw ato.
- Nodi'r amcan dysgu ar y bwrdd gwyn a sicrhau bod adnoddau ar gael.
- Atgoffa'r dysgwyr o'r disgwyliadau'n rheolaidd a chanmol yn gyson.
- Peidio â gadael yr ystafell ddosbarth, oni bai bo argyfwng.
- Cadw dysgwyr ar y dasg drwy gydol y wers a pheidio â gadael iddynt adael yr ystafell ddosbarth, oni bai bo argyfwng.

DRAFT

DRAFT

- Nodi ardaloedd problemus mewn dosbarthiadau, a lleoli ein hunain mewn ymateb i hyn.
- Gwybod enw'r holl ddisgyblion sydd yn ein gofal.
- Cymryd cyfrifoldeb am ddisgyblaeth.
- Mae pob diwrnod yn ddechrau newydd.
- Mae pob gwers yn ddechrau newydd.

Dylai'r holl staff:

- Arddangos ymddygiad da.
- Cynnal rheolaeth emosiynol – rhoi amser i feddwl cyn ymateb.
- Cynnal eich urddas i gynnal perthynas gyda'r plentyn.
- Peidio â chynhyrfu.
- Bod yn hyderus.
- Bod yn gyson.
- Dangos cydymdeimlad.
- Cynnal perthynas broffesiynol – gwahanu'r ymddygiad o'r plentyn.
- Deall y gallant ddylanwadu ar newid a phan fo'r oedolyn yn newid, mae popeth yn newid.
- Cydnabod bod popeth yn dibynnu ar ymddygiad yr oedolyn.
- Bod yn rhagweithiol i sicrhau eich bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am anghenion disgyblion unigol.
- Rhannu arferion da a llwyddiant.

Dylem oll ddilyn yr uchod i sicrhau nad ydym yn:

- Bychanu
- Gweiddi – mae'n bychanu eraill ac yn diddymu'r effaith
- Gor-ymateb neu weithredu'n fyrbwyll
- Cosbi pawb mewn grŵp, neu gosbi rhywbeth nad oes modd ei brofi.
- Bod yn goeglyd.
- Cam-ddefnyddio eich awdurdod.
- Defnyddio bygythiadau gwag.
- Gwneud addewidion na ellir eu cadw.
- Dal dig.

**Strategaeth Rheoli Ymddygiad, i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol**

1. **Cynllunio gwersi ar gyfer ymddygiad da**
    - **Disgwyliadau uchel**

Os oes disgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddysgwyr, byddant yn fwy tebygol o lwyddo. Mae'n rhaid i chi osod ffiniau clir ac mae'n rhaid eu hail-ystyried yn rheolaidd.

- **Gwahaniaethu**

Gall addysgu gwych leihau problemau ymddygiad, ond nid dyma'r achos bob tro. Dengys ymchwil bod disgwyliadau clir a thasgau sy'n cyd-fynd ag anghenion y dysgwyr yn gwella agwedd tuag at ddysgu.

- **Cyflymdra da mewn gwers**

Gall cyflymdra gwers gynorthwyo i sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu ac yn gynhyrchiol drwy gydol y wers.

- **Amgylchedd dysgu trefnus**

Gall amgylchedd dysgu trefnus a thaclus gynorthwyo i hyrwyddo canolbwyntio ac osgoi tynnu sylw.

**2. Perthynas staff – disgybl**

Dylech sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg a gyda chysondeb. **Mae pob gwers yn ddechrau newydd.**

**3. Brwdfrydedd yr athrawon**

Os oes gan yr athro frwdfrydedd tuag at y pwnc, bydd hyn yn cael ei drosglwyddo i'r dysgwyr.

**4. Yr athro yn barod ar gyfer y wers**

Os yw athro yn y dosbarth yn barod i gyfarch y disgyblion a chynnal cyswllt llygad, mae hyn yn fantais ac yn rhoi rheolaeth o'r ystafell ddosbarth. Dylech ystyried cynllun eistedd priodol ar gyfer pob dosbarth.

**5. Canmoliaeth**

Dylai'r staff ystyried defnyddio canmoliaeth dair gwaith am bob un cerydd, gall hyn newid agwedd unigolyn yn ystod cyfnod o 2/3 wythnos. **'Eu dal yn ymddwyn yn dda'.**

**6. Iaith**

Dylai'r staff ddefnyddio iaith gadarnhaol bob amser. e.e. yn hytrach na dweud "wnewch chi roi'r gorau i siarad" gallwch ddweud "Rwyf eisiau i bawb wrando yn awr", yn hytrach na "Dylan, paid â throi i siarad â Bethan" gallwch ddweud "Dylan, diolch, rwyf angen i ti edrych arnaf i a chanolbwyntio ar dy waith". Ceisiwch beidio â defnyddio cwestiynau ansicr, rhowch gyfarwyddiadau cwrtais.

**7. Bod yn gyson.**

Beth bynnag fo eich strategaeth ymddygiad, mae'n rhaid bod yn gyson, a dylai pawb gael eu trin yn gyfartal.

**Y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth**

Mae gan yr holl staff gydgyfrifoldeb i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

DRAFT

Gall amser heb gyfarwyddyd gyfrannu at ddirywiad yn ymddygiad y dysgwyr.

Gallwn oll hyrwyddo ymddygiad da drwy ryngweithio'n gadarnhaol ar bob cyfle.

Dylem ddisgwyl:

- Mwynhau uniaethu â'ch gilydd.
- Croesawu holl aelodau cymuned yr ysgol.
- Dechrau sgwrs ar bob cyfle.
- Delio ag ymddygiad gwael, mae anwybyddu yn golygu caniatáu.
- Gosod safonau uchel o leferydd, ymddygiad a gwisg.

Mae'n arfer da trafod ac adolygu'r gweithdrefnau hyn gyda holl aelodau cymuned yr ysgol yn rheolaidd.

Gall ymddygiad o gwmpas yr ysgol a Dysgwyr sy'n cyrraedd yn hwyr gael effaith negyddol ar eich gwers a gwersi eraill o fewn yr ysgol.

Dylid defnyddio'r canlynol fel canllaw sylfaenol ar gyfer ymddygiad o gwmpas yr ysgol. Sicrhewch cymaint â phosibl eich bod yn pwysleisio'r weithdrefn isod.

**Delio ag ymddygiad gwael**

Wrth ymateb i ymddygiad annerbyniol, dylai'r staff nodi'r cyngor isod:

- Dylai'r holl staff gadw at strategaeth yr ysgol gyfan ar gyfer rheoli ymddygiad.
- Os yw dysgwr yn "chwarae i'r gynulleidfa", deliwch â'r broblem ymhell oddi wrth y gynulleidfa.
- Eglurwch i'r dysgwr fod gennych ddisgwyliadau uchel ganddynt ac eich bod wedi'ch siomi pan fyddant yn gadael eu hunain i lawr.
- Eglurwch i'r dysgwr unwaith y bydd digwyddiad wedi'i ddatrys yna mae wedi dod i ben yn eich tyb chi. Byddwch yn disgwyl i arferion rheolaidd ailddechrau. Dylai bod pob gwers yn gyfle i ddechrau o'r newydd.
- Po agosaf yw'r gosb i'r camymddwyn, o ran amser, y mwyaf effeithiol y bydd.
- Dylid osgoi cosbau wedi'u hanelu at y dysgwr yn hytrach na'r ymddygiad. Bydd ymddygiad coeglyd, embaras, ofn ac ati yn gwaethygu materion yn lle eu datrys. Gofynnwch i'ch hunain sut fyddech chi'n teimlo pe baech yn yr un sefyllfa.
- Cofiwch nid yw'n bersonol fel arfer.

**Honiadau Maleisus**

Os gwneir honiad yn erbyn athro, dylai bod datrys yr honiad yn gyflym yn flaenoriaeth glir er budd pawb. Ar unrhyw gam yn ystod ystyriaeth neu ymchwiliad, dylid osgoi oedi diangen.

Dylid trin honiadau gan ddefnyddio'r polisïau a'r gweithdrefnau priodol.

DRAFT

# Atodiad B

## Ymgysylltiad ac Ymddygiad

## Hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â Dysgwyr

- Parodrwydd – Dylai pawb gyrraedd yr ysgol gyda’r agwedd, offer ac ymddangosiad cywir sy'n eu paratoi ar gyfer llwyddiant.
- Parch - Mae ein hysgol yn gwerthfawrogi urddas pob aelod o'n cymuned. Dylai pawb ddangos parch tuag at eu hunain ac at holl aelodau cymuned yr ysgol.
- Cyfrifoldeb – Mae gan bawb gyfrifoldeb ar y cyd ac unigol i sicrhau bod ein hymddygiad yn hyrwyddo dysgu effeithiol a diogelwch cymuned yr ysgol. Mae angen i bawb dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain.

**Mae hawl gan y dysgwyr i :**

- Gael eu trin â pharch a bod pobl yn gwrando arnynt.
- Cael eu haddysgu mewn amgylchedd sy’n ddiogel ac yn ffafriol er mwyn dysgu.
- Disgwyl camau priodol gan staff yr ysgol wrth ddelio ag unrhyw ddigwyddiad o fwlio, trais, gwahaniaethu neu aflonyddu.
- Defnyddio gweithdrefnau ysgol perthnasol h.y. cwynion, os ydych chi’n teimlo nad yw sefyllfa wedi'i datrys yn foddhaol.

**Disgwylir i ddysgwyr gymryd cyfrifoldeb i :**

- Ddiwallu disgwyliadau ymddygiad ein hysgol.
- Ymddwyn mewn modd cyfrifol o amgylch yr adeilad a rhoi ystyriaeth i eraill.
- Cyrraedd gwersi yn brydlon.
- Dod â’r offer cywir ar gyfer y wers.
- Dilyn cyfarwyddiadau rhesymol gan staff, dilyn rheolau a derbyn cosbau.
- Ymddwyn mewn modd parchus a chwrtais tuag at bawb.
- Dangos parch ar gyfer safbwyntiau a chredoau eraill.
- Cwblhau’r holl waith dosbarth yn y modd gofynnol.
- Cyflwyno gwaith cartref yn brydlon.
- Dangos parch ar gyfer amgylchedd yr ysgol.
- Arddangos cydgyfrifoldeb a pharch tuag at amgylchedd yr ysgol.
- Gweithredu fel cynrychiolwyr yr ysgol pan nad ydych yn yr adeilad.
- Peidio â dod ag eitemau amhriodol i’r ysgol.
- Peidio â niweidio, dirmygu neu fwlio Dysgwyr eraill neu'r staff.

DRAFT

DRAFT

**Eitemau nas caniateir:-**

- Efallai y bydd ffonau symudol yn cael eu cymryd (os cânt eu gweld neu eu clywed y tu hwnt i'r ardaloedd a'r amseroedd dynodedig) - dylid eu defnyddio yn ystod amser egwyl neu ginio yn y ffreutur neu y tu allan yn unig.
- Bydd dyfeisiau cerddoriaeth, dyfeisiau gemau neu unrhyw ddyfais sy'n cael effaith negyddol ar ddysgu yn cael eu cymryd.
- Ni chaniateir gwisgo clustffonau y tu mewn i'r adeilad.
- Ni chaniateir diodydd meddal / diodydd egni yn yr ysgol.
- Fferins ac eitemau sy'n cael eu pennu'n bethau nad ydynt yn iach gan yr ysgol.
- Offer TG heblaw'r hyn a gyflwynir neu a gymeradwyir gan Ysgol < > gan gynnwys camerâu ac offer recordio.
- Sigarennau / Tybaco / E-sigarennau.
- Eitemau anghyfreithiol neu gyffuriau /sylweddau eraill.

**Disgwylir i ddysgwyr:**

- Gydymffurfio â'r polisi gwisg ysgol.
- Bwyta yn y ffreutur a'r ardaloedd bwyta dynodedig y tu allan yn unig.
- Peidio ag ymgysylltu ag unrhyw weithgareddau masnachol ar eiddo'r ysgol.
- Parchu eiddo eraill.

**Cyngor i ddysgwyr:-**

- Peidiwch â dod ag eitemau gwerthfawr nac arian i'r ysgol. Os bydd angen dod ag arian i'r ysgol dewch â'r symiau lleiaf posibl.
- Peidiwch â dod ag eitemau dillad ac offer drud i'r ysgol. Ni fydd yr ysgol yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod.
- Defnyddio bagiau ar gyfer yr ysgol sy'n addas o ran maint ac yn ddigon cryf i gludo llyfrau ac offer arall.

**Teithio i ac o'r ysgol**

- Tra bo dysgwyr yn teithio i ac o'r ysgol maent yn cynrychioli'r ysgol ac mae'n rhaid iddynt ymddwyn mewn modd nad yw'n niweidio enw da'r ysgol.
- Dylai dysgwyr barchu pobl ac eiddo yn y gymuned leol ac ymddwyn mewn modd diogel a chyfrifol.
- Efallai y bydd dysgwyr sy'n camymddwyn wrth deithio i ac o'r ysgol yn destun cosbau'r ysgol, a /neu'r rhai sydd ym Mholisi Cludiant Ysgol Sir Ddinbych.
- Efallai y bydd ymddygiad dysgwyr y tu allan i'r ysgol sy'n effeithio ar addysg a lles Dysgwyr yn yr ysgol hefyd yn destun gweithdrefnau disgyblu.

**Ymddygiad y tu allan i'r ysgol**

Rydym yn gwerthfawrogi profiadau ein dysgwyr, y tu mewn a thu allan i'r ysgol, ac felly byddwn yn disgwyl i'n Dysgwyr ymddwyn mewn modd sy'n hyrwyddo Ysgol Bro Dyfrdwy. Fodd bynnag, ar adegau efallai na fydd ymddygiad Dysgwyr yn bodloni'r safonau disgwyliedig ac felly efallai y byddant yn destun gweithredu gan yr ysgol.

**Honiadau maleisus gan Ddysgwyr**

Os gwneir honiad yn erbyn athro, dylai bod datrys yr honiad yn gyflym yn flaenoriaeth glir er budd pawb. Ar unrhyw gam yn ystod ystyriaeth neu ymchwiliad, dylid osgoi oedi diangen.

Dylid trin honiadau gan ddefnyddio'r polisïau a'r gweithdrefnau priodol.

Mae'n debygol y bydd dysgwyr sydd wedi gwneud honiadau maleisus wedi torri Polisi Ymddygiad yr ysgol. Felly dylai'r ysgol ystyried a ddylid cymhwyso cosb briodol, a fyddai'n cynnwys gwaharddiad dros dro neu barhaol (ynghyd ag atgyfeirio at yr heddlu os oes sail i gredu bod trosedd wedi'i chyflawni).

DRAFT

# Atodiad C

## Ymgysylltiad ac Ymddygiad

## Hawliau a chyfrifoldebau rhieni a gofalwyr

DRAFT

- Parodrwydd – Dylai pawb gyrraedd yr ysgol gyda'r agwedd, offer a'r ymddangosiad priodol sy'n eu paratoi ar gyfer llwyddiant.
- Parch – Mae ein hysgol yn gwerthfawrogi urddas pob aelod o'n cymuned. Dylai pawb ddangos parch tuag atynt eu hunain a phob aelod o gymuned yr ysgol.
- Cyfrifoldeb - Mae gan bawb gyfrifoldeb ar y cyd ac fel unigolion i sicrhau fod ein hymddygiad yn hyrwyddo dysgu effeithiol a diogelwch cymuned yr ysgol. Mae'n rhaid i bawb gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd eu hunain.

Rydym yn trin ein gilydd gyda charedigrwydd a pharch wrth i ni gefnogi eich plant, ac rydym yn disgwyl i chi wneud yr un fath wrth weithio gyda ni. Mae angen i ni weithio mewn partneriaeth - bydd cydweithio a chysondeb rhwng y rhieni a'r ysgol yn arwain at well canlyniadau ar gyfer eich plentyn.

Credwn fod gan bob rhiant yr hawl i gael eu clywed, eu deall a'u parchu. Fodd bynnag, mae gan holl staff a llywodraethwyr yr ysgol yr un hawl. Rydym yn disgwyl i chi fod yn foesgar a chwrtais. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad ymosodol, camdriniol neu afresymol.

**Mae disgwyl i rieni a gofalwyr:**

- Gefnogi'r ysgol. Rydych wedi ymddiried ynom ni gydag addysg a lles eich plentyn. Weithiau mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd na fyddwch o bosibl yn cytuno â nhw, ond rydym bob amser yn eu gwneud gyda bwriad cadarnhaol.
- Byddwch yn fodel rôl cadarnhaol ar gyfer eich plant ym mhob achos o ryngweithio gyda'r ysgol; byddwch yn foesgar, cymesur a chwrtais bob amser. Gosodwch esiampl dda yn y modd rydych chi eich hun yn siarad ac yn ymddwyn.
- Cadwch at holl bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol.
- Gweithiwch mewn partneriaeth gyda staff i sicrhau ymddygiad da.
- Cyfathrebwch yn briodol.
- Rhowch wybod i staff am unrhyw bryderon, ond byddwch yn gymesur a chwrtais bob amser. Fe fyddwn yn ymdrin â'ch pryderon, ond rydym yn gofyn i chi ganiatáu amser rhesymol i ni ymateb.
- Ymatebwch i bryderon a godir gan aelodau o staff yn gwrtais.
- Sicrhewch fod disgyblion yn dod i'r ysgol ar amser, gyda'r offer priodol ac yn barod i weithio.
- Cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol gyda'ch pryderon gan ganiatáu i ni ddatrys y materion gyda chi. Peidiwch â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i drafod eich pryderon. Cyfathrebwch yn briodol gyda'r ysgol gan ddefnyddio dulliau y cytunwyd arnynt
- Cadwch at safonau ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol bob amser, fel y disgrifir isod.

Er mwyn cefnogi amgylchedd tawel a diogel yn yr ysgol ni all yr ysgol ganiatáu i rieni, gofalwyr ac ymwelwyr ddangos y canlynol:

DRAFT

- Ymddygiad sy'n tarfu ar eraill ac sy’n amharu neu’n bygwth amharu ar weithrediad ystafell ddosbarth, swyddfa gweithiwr, ardal swyddfa neu unrhyw ardal arall ar dir yr ysgol gan gynnwys gemau tîm.
- Defnyddio iaith uchel/neu dramgwyddol, rhegi, melltithio, defnyddio iaith anweddus neu ddangos tymer.
- Bygwth gwneud gwir niwed corfforol i aelod o staff yr ysgol, Llywodraethwr, ymwelydd, cyd riant/gofalwr neu ddisgybl, p’un a yw'r ymddygiad yn gyfwerth â throsedd ai peidio.
- Difrodi neu ddinistrio eiddo’r ysgol.
- Anfon negeseuon e-bost neu negeseuon testun/ llais/ ffôn neu ohebiaeth ysgrifenedig arall sy’n ymosodol neu’n fygythiol.
- Sylwadau difenwol, ymosodol neu ddirmygus ynglŷn â’r ysgol neu unrhyw un o ddisgyblion, rhieni neu staff yr ysgol ar Facebook neu safleoedd cymdeithasol eraill. Dylech gyflwyno unrhyw bryderon y gallai fod gennych am yr ysgol drwy’r dulliau priodol drwy siarad gydag aelod o staff yn yr ysgol, y Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr, fel y gellir mynd i’r afael â’r pryderon yn deg, yn briodol ac yn effeithiol ar gyfer pawb sy’n ymwneud â hyn.
- Defnyddio ymosodiad corfforol tuag at oedolyn arall neu blentyn.
- Mynd at blentyn rhywun arall er mwyn trafod neu eu cosbi o ganlyniad i weithredoedd canfyddedig y plentyn hwn tuag at eich plentyn eich hun. Gall mynd at blentyn fel hyn gael ei ystyried fel ymosodiad ar y plentyn hwnnw a gallai arwain at ganlyniadau cyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â phlentyn drwy’r cyfryngau cymdeithasol, gemau cyfrifiadurol, dyfeisiau electronig eraill neu dros y ffôn.
- Dod i safle’r ysgol gan ysmygu neu o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau eraill at ddibenion hamdden.
- Dod â chŵn ar dir yr ysgol heb ganiatâd.
- Mynnu ymateb i geisiadau mewn cyfnod afresymol o amser neu y tu allan i oriau arferol yr ysgol.
- Ceisio osgoi neu geisio herio’r trefniadau diogelwch a chyfarwyddiadau staff o amgylch yr ysgol ar amseroedd gollwng a chasglu.
- Ceisio recordio unrhyw gyfathrebu gyda staff gan gynnwys galwadau ffôn neu gyfarfodydd heb drafodaeth a chydsyniad ymlaen llaw.

DRAFT

Os bydd unrhyw un o’r uchod yn digwydd ar dir yr ysgol, mae’n bosibl y bydd yr ysgol yn teimlo bod angen cysylltu â’r awdurdodau priodol ac os bydd angen, hyd yn oed gwahardd yr oedolyn sy’n troseddu rhag dod ar dir yr ysgol. Mae gennym ni Bolisi Ymddygiad Annerbyniol gan Fudd-ddeiliad y byddwn yn ei ddefnyddio yn yr achosion hyn.

Rydym yn gobeithio y bydd rhieni a gofalwyr yn cynorthwyo ein hysgol i weithredu’r polisi hwn ac rydym yn diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i’n hysgol.

**Honiadau maleisus a wneir gan rieni**

Mae ein hysgol wedi ymrwymo i ymdrin yn effeithiol â phryderon a chwynion. Ein nod yw egluro unrhyw faterion nad ydych yn sicr yn eu cylch. Os oes modd, fe fyddwn yn cywiro unrhyw gamgymeriadau rydym ni wedi'u gwneud ac fe fyddwn yn ymddiheuro. Ein nod yw dysgu o'n camgymeriadau a defnyddio'r profiad hwnnw i wella'r hyn rydym yn ei wneud.

Fe ymdrinnir â honiadau drwy ddefnyddio'r polisïau priodol a dilyn y broses gywir a amlinellir yng Ngweithdrefnau Cwyno'r Ysgol. Peidiwch â neidio dros gymalau o'r polisi gan y gallai hynny rwystro ein gallu i ymdrin ag unrhyw bryderon yn brydlon.

Mae rhieni neu oedolion eraill y canfyddir eu bod wedi gwneud honiadau maleisus yn debygol o fod wedi torri'r Polisi Ymddygiad Annerbyniol.

Os canfyddir fod yna achos o dorri'r naill bolisi neu'r llall, fe fyddwn yn cosbi os credir fod yr achos yn un digon difrifol, a gall hyn gynnwys cysylltu â'r heddlu os oes yna sail i gredu y gallai trosedd fod wedi ei chyflawni.

DRAFT

# Atodiad D

***Goleadau traffig***

***Gwyrdd***

- *Bydd bob plentyn yn cychwyn diwrnod newydd ar y gwyrdd.*

***Oren***

- *Mae'r dau funud i feddwl yn gyfle i'r plentyn adlewyrchu ar ei ymddygiad a cymeryd cyfrifoldeb gan ddysgu o'i gamgymeriadau. Bwriad 2 funud i feddwl ydi bod y plentyn yn gallu dewis camu allan o'r dosbarth a cael dau funud i feddwl cyn dychwelyd nol dosbarth wedi tawelu a newid meddylfryd i fod yn un gwyrdd.*

***Coch***

- *Pan fydd disgybl yn cyrraedd dau funud i feddwl (golau oren) am y **trydydd** tro yn ystod y diwrnod, mi fyddan nhw'n mynd ar y golau coch (Colli amser aur prynhawn dydd Gwener)*
- ***Athro/ Athrawes dosbarth i ffonio rhieni bob tro mae plentyn ar y golau coch.***



# Atodiad E

Rhestr o bolisïau perthnasol : Maent oll ar gael ar wefan CSDd

- Polisi ar gyfer delio gydag ymddygiad annerbyniol gan gwsmeriaid
- Polisi trosglwyddo ysgolion a reolir
- Polisi Cludiant Dysgwyr
- Polisi Achwyniad ar y Cyd
- Polisïau AD

DRAFT

**Polisïau yn seiliedig mewn ysgolion**

Amddiffyn Plant/ Diogelu mewn Addysg

Defnydd o Rym Rhesymol ac Ymyrraeth Gorfforol

Polisi Atal Camddefnyddio Sylweddau: Ysgolion Cynradd

Polisi Atal Camddefnyddio Sylweddau: Ysgolion Uwchradd

Cwynion

**All Wales Child Protection Procedures**

http://www.childreninwales.org.uk/policy-document/wales-child-protection-procedures-2008/

**North Wales Safeguarding Board Website that has all the individual policies and guidance which includes the resolving professional differences e**

https://www.northwalessafeguardingboard.wales/policies-and-procedures-children/

# Atodiad F

**Rhestr ACE**

- **Cam-drin Plant**
  - Cam-drin geiriol
  - Cam-drin corfforol
  - Cam-drin rhywiol

- **Mae aelwyd plentyndod yn cynnwys:**
  - Rhieni yn gwahanu

DRAFT

- Trais domestig
- Salwch meddwl
- Cam-ddefnyddio alcohol
- Cam-ddefnyddio cyffuriau
- Cyfnod dan glo

(http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88517)

DRAFT